

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Ysbyty St Cadoc

Bwrdd Iechyd

Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu:

19 - 21 Tachwedd 2018

Dyddiad cyhoeddi: 22 Chwefror
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Rhoi gofal diogel ac effeithiol.....	19
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	31
4.	Beth nesaf?.....	34
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	35
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	36
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	37
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	38

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl yn Ysbyty St Cadoc ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar noson 19 Tachwedd 2018, a'r diwrnodau canlynol 20 a 21 Tachwedd. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Adferiad - Ward Derbyn Iechyd Meddwl Acíwt
- Beechwood - Uned Gofal Seiciatrig Dwys
- Belle Vue - Ward Adsefydlu Iechyd Meddwl Dan Glo i Fenywod
- Pillmawr - Ward Adsefydlu Iechyd Meddwl Dan Glo i Ddynion
- North Lodge - Tŷ Adsefydlu Iechyd Meddwl Agored i Ddynion
- South Lodge - Tŷ Adsefydlu Iechyd Meddwl Agored i Ddynion

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd o AGIC, tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygwr enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) a dau adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth i gleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015). Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dimau o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol ar y cyfan am y gofal roeddent yn ei gael yn yr ysbyty.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu cynllun y ward derbyn aciwt gan ei fod yn effeithio ar urddas y cleifion a gallu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom hefyd fod rhai gwelliannau heb gael eu gwneud ers ein harolygiad blaenorol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal a roddir
- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion gan ddangos parch
- Roedd Belle Vue a Pillmawr yn darparu gofal adsefydlu wedi'i deilwra i gleifion unigol
- Gwaith tîm da a staff sy'n uchel eu cymhelliant
- Roedd y staff yn gadarnhaol am ddiwylliant cefnogol yr ysbyty.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Trefniadau ar gyfer cynnal amgylchedd gofal diogel ar wardiau Adferiad a Pillmawr.
- Cynllun ward Adferiad, sef y ward derbyn ar gyfer gofal iechyd meddwl aciwt
- Problemau amgylcheddol ac arferion staff ar ward Adferiad sy'n effeithio ar urddas y cleifion
- Trefniadau i reoli meddyginiaethau a threfniadau'r ystafelloedd clinig

- Cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- Dysgu ar y cyd a chyflawni ymrwymiadau yn dilyn canlyniadau arolygiadau

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty St Cadoc yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Lodge Road, Caerllion, Casnewydd, NP18 3XQ, yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys:

- Adferiad, ward derbyn iechyd meddwl aciwt i ddynion a menywod sy'n cynnwys 22 o welyau. Mae'r ward hefyd yn rheoli Ystafell Adran 136 yr ysbyty¹.
- Beechwood, sef Uned Gofal Seiciatrig Dwys i ddynion a menywod. Adeg yr arolygiad, roedd yr Uned yn cael ei had-drefnu gan gynyddu nifer y gwelyau o bedwar gwely ac Ardal Gofal Ychwanegol² i wyth gwely ac Ardal Gofal Ychwanegol. O ganlyniad i'r rhaglen waith hon a oedd yn mynd rhagddi yn ystod yr arolygiad, dim ond dau wely ac Ardal Gofal Ychwanegol oedd yn yr Uned.
- Belle Vue, ward adsefydlu iechyd meddwl dan glo i fenywod sy'n cynnwys chwe gwely. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal dwys am gyfnodau sy'n amrywio o nifer o fisoedd i rai blynyddoedd.
- Pillmawr, ward adsefydlu iechyd meddwl dan glo i ddynion sy'n cynnwys 12 gwely. Mae'n darparu gwasanaeth adsefydlu iechyd meddwl hirdymor cyn i gleifion gael eu rhyddhau i'r gymuned.
- North Lodge, tŷ adsefydlu iechyd meddwl agored i ddynion sy'n cynnwys tair ystafell wely ac sydd wedi'i leoli ar dir yr ysbyty. Mae'n cynnig amgylchedd gofal llai cyfyngol i gleifion cyn iddyn nhw symud i lety yn y gymuned.

¹ Mae Adran 136 yn rhoi'r pŵer i'r heddlu fynd â pherson o fan cyhoeddus, pan fydd yn ymddangos ei fod yn dioddef o anhwylder meddwl, i fan diogel. Mae Ystafell Adran 136 yn fan diogel dynodedig.

² Ystafell wely ddi-haint a stimwlws isel yw Ardal Gofal Ychwanegol, sy'n galluogi'r staff i roi cymorth mwy dwys i glaf sy'n ymddwyn mewn ffyrdd mwy heriol.

- South Lodge, tŷ adsefydlu iechyd meddwl agored i ddynion sy'n cynnwys tair ystafell wely ac sydd wedi'i leoli ar dir yr ysbyty. Mae'n cynnig amgylchedd gofal llai cyfyngol i gleifion cyn iddyn nhw symud i lety yn y gymuned.

Mae Pillmawr, North Lodge a South Lodge yn cael eu rheoli fel un gwasanaeth. Mae North Lodge a South Lodge yn darparu amgylchedd gofal llai cyfyngol na Pillmawr.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch a chadarnhawyd hyn gan y cleifion y gwnaethom siarad â nhw.

Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau amgylcheddol sylweddol a newidiadau i rai arferion staff ar ward Adferiad er mwyn mynd i'r afael â'r problemau preifatrwydd ac urddas sy'n effeithio ar y cleifion.

Ar y wardiau adsefydlu, roedd pwyslais clir ar ofal wedi'i deilwra a ategwyd gan arferion lleiaf cyfyngol.

Cadw'n iach

Roedd pob un o'r pedair ward yn cael mewnbwn gan therapyddion galwedigaethol gyda gweithgareddau a oedd yn briodol i'r math penodol o ward dan sylw, er enghraifft, y ward derbyn aciwt, yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys neu'r wardiau adsefydlu.

Ar ward Pillmawr, roedd amrywiaeth eang o weithgareddau ar gael i'r cleifion yn y ward ei hun, ar dir yr ysbyty ac yn y gymuned leol. Roedd amserlen gweithgareddau'r ward i'w gweld yn y ward. Ar y ward, roedd dewis eang o DVDs, bwrdd pŵl ac adnoddau celf a chrefft ar gael i'r cleifion. Yn ogystal, roedd cegin Gweithgareddau Bywyd Beunyddiol y gallai'r cleifion ei defnyddio er mwyn cynnal a meithrin sgiliau coginio. Fodd bynnag, nid oedd un o'r ddau gwcer yn y gegin yn gweithio ar adeg yr arolygiad. Roedd cynllun y gegin yn golygu nad oedd digon o le i fwy nag un person goginio ar yr un pryd gan fod y ddau gwcer wrth ymyl ei gilydd. Gwnaethom nodi yn ein harolygiad blaenorol y dylid edrych ar yr ardal hon er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r cyfleuster.

Er bod socedi erialau teledu yn ystafelloedd gwely'r cleifion, cawsom wybod nad oedd y rhan fwyaf o'r rhain yn gweithio, felly ni allai'r cleifion ddefnyddio eu setiau teledu. Mae angen mynd i'r afael â hyn.

Roedd y cleifion ar ward Pillmawr yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff er mwyn cadw'n iach, gan gynnwys teithiau cerdded, beicio, nofio a mynd i'r gampfa leol. Gwelsom nifer o'r cleifion yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn ystod yr arolygiad.

Roedd cleifion o ward Pillmawr hefyd yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau adsefydlu galwedigaethol fel rhan o brosiect sied goed yr ysbyty a'r prosiect garddwrol manau tyfu.

Roedd y cleifion ar ward Belle Vue yn cael cynnig amrywiaeth o weithgareddau wedi'u teilwra'n benodol i'w diddordebau a'u hanghenion unigol a'u rhaglen gofal adsefydlu. Roedd y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal ar y ward ac yn y gymuned leol. Roedd y cleifion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff er mwyn cadw'n iach, gan gynnwys teithiau cerdded, nofio a defnyddio amwynderau lleol eraill.

Roedd hi'n amlwg bod pwyslais mawr yn cael ei roi ar ddefnyddio gwasanaethau cymunedol fel rhan o'r rhaglen gofal adsefydlu. Roedd Pillmawr a Belle Vue yn gweithio gyda sefydliadau cymunedol a fyddai'n galluogi'r cleifion i barhau i ymgysylltu â'r sefydliadau ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r cleifion yn ward Beechwood; roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn cael eu cynnal ar y ward o ganlyniad i'r cyfyngiadau sydd fel arfer ar waith er mwyn atal y cleifion rhag gadael y ward. Roedd hi'n gadarnhaol nodi, fel rhan o'r gwaith i adnewyddu'r ward, fod y bwrdd iechyd wedi cynnwys campfa ar y ward a oedd yn galluogi'r cleifion i wneud ymarfer corff pan nad oeddent yn gallu gadael y ward.

Roedd gan ward Adferiad amrywiaeth o weithgareddau a chyfleusterau sy'n addas i ward derbyn aciwt. Roedd lolfa fawr ac amrywiaeth o gemau, llyfrau a DVDs ar gael i'r cleifion. Roedd ystafell therapi galwedigaethol ac ardal gyffredin fawr arall gyda bwrdd pŵl wrth ymyl yr ystafell fwyta. Os oedd y cleifion wedi cael caniatâd i adael y ward (neu os nad oeddent wedi cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl), gallent fynd i'r gymuned leol.

Fodd bynnag, o ganlyniad i gynllun a phrysurdeb ward Adferiad, nid oedd y cyfleusterau'n cael eu defnyddio i'w llawn potensial. Er y gallai'r cleifion fynd i'r lolfa fel y mynnent, roedd yn rhaid i staff fod yn bresennol os oedd y cleifion yn defnyddio'r ardal gyffredin fawr a'r ystafell therapi galwedigaethol. Drwy gydol yr arolygiad, roedd yr ardaloedd hyn ar glo heb neb yn eu defnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu cynllun y gegin Gweithgareddau Bywyd Beunyddiol ar ward Pilmawr a sicrhau bod yr holl gyfleusterau'n gweithio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob soced erial teledu yn gweithio.

Gofal gydag urddas

Ar y cyfan, gwelsom fod yr holl staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd roeddent yn cefnogi ac yn gofalu am y cleifion. Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd digynnwrf drwy gydol ein harolygiad. Gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch, gan gynnwys rhyngweithio'n brydlon ac yn briodol, mewn ymgais i atal ymddygiad y cleifion rhag mynd yn fwy difrifol.

Fodd bynnag, roedd cyfyngiadau amgylcheddol a chyflwr yr amgylchedd, ynghyd â rhai arferion staff, yn effeithio ar breifatrwydd ac urddas y cleifion ar ward Adferiad. Roedd pedair ystafell gysgu ar gael i ddynion a menywod ar wahân a oedd yn cynnwys pedwar gwely yr un ac roedd chwe ystafell wely sengl. Ar ôl i newidiadau gael eu gwneud i'r ffenestri yn yr ystafelloedd gwely sengl ar ward Adferiad, nid oedd y llenni wedi cael eu rhoi'n ôl. Roedd y ffenestri yn rhai arlliwiedig/adlewyrchol, ond ni allai'r cleifion rwystro'r heulwen rhag mynd i mewn i'w hystafelloedd os oeddent yn dymuno am nad oedd llenni ar gael.

Cawsom wybod nad oedd llenni pob ciwbicl yn cael eu tynnu yn y nos. Nid yw hyn yn rhoi preifatrwydd i'r cleifion a dylid defnyddio llenni ciwbicl er mwyn cadw preifatrwydd y cleifion. Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r llety ar ward Adferiad gan mai dim ond lefel sylfaenol iawn o breifatrwydd sydd yn yr ystafelloedd cysgu ac nid ydynt yn cynnig darpariaeth iechyd meddwl fodern i gleifion mewnol.

Er i ni fynegi pryder nad oedd digon o gawodydd yn Ysbyty St Cadoc yn ystod ein harolygiad blaenorol ym mis Hydref 2016, dim ond dwy gawod sydd ar gael o hyd i hyd at 22 o gleifion ar ward Adferiad; nid yw hyn yn ddigon o ystyried nifer y cleifion sydd ar y ward. I waethygu'r broblem, roedd dŵr y gawod ddynodedig i ddynion yn oer ac felly roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn defnyddio'r un gawod ddynodedig i gleifion benywaidd.

Roedd staeniau mawr ar loriau a waliau'r ddwy ystafell gawod, gyda ffwng yn crynhoi ar ffenestri'r nenfwd ac o'u cwmpas a phydredd ar fframiau'r ffenestri. Mae hyn yn annerbyniol ac mae angen mynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth.

Roedd y wardiau yn addas i gleifion yr oedd angen cymorth arnynt i symud. Fodd bynnag, nid oedd digon o ystafelloedd ymolchi â chymorth; nid oedd yr ystafell ymolchi â chymorth ar ward Pillmawr yn gweithio ac nid oedd unrhyw ystafelloedd ymolchi â chymorth ar y wardiau eraill. Mae hyn yn golygu nad oedd cyfleusterau addas ar gael i gleifion y gallai fod angen cymorth arnynt i gael bath neu gawod.

Er bod ward Adferiad yn fawr, nid oedd ardaloedd dynodedig ar gael i ddynion a menywod ar wahân, heblaw am yr ystafelloedd cysgu. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i ddarparu ardaloedd cyffredin ar gyfer dynion a menywod ar wahân, a all fod yn fuddiol i lesiant y cleifion.

Ynghyd â chwe ystafell wely ar ward Adferiad, roedd gan y cleifion yn Beechwood, Belle Vue, Pillmawr, North Lodge a South Lodge eu hystafelloedd gwely eu hunain. Roedd y rhain yn rhoi lefel dda o breifatrwydd i'r cleifion ac yn helpu'r staff i gynnal urddas y cleifion. Fodd bynnag, ar ward Adferiad, roedd hi'n gyffredin i'r staff adael y paneli arsylwi ar ddrysau'r ystafelloedd gwely (a'r ystafelloedd cysgu) ar agor. Ni ddylai hyn ddigwydd. Oni bai bod claf yn dymuno eu cadw ar agor neu os oes rheswm clinigol dros wneud hynny, dylai paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely gael eu cadw ar gau nes eu bod yn cael eu defnyddio i arsylwi, ac yna dylid eu cau unwaith eto.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y gall y cleifion gau'r llenni preifatrwydd rhwng y gwelyau yn yr ystafelloedd cysgu (oni bai bod risgiau cleifion unigol yn dangos nad yw hynny'n briodol).

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dŵr cynnes ym mhob cawod.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob cawod yn cael ei chynnal i'r lefel lanweithdra ofynnol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu mwy o gawodydd ar ward Adferiad.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau ymolchi â chymorth ar gael yn Ysbyty St Cadoc.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i ddarparu ardaloedd cyffredin ar gyfer dynion a menywod ar wahân ar ward Adferiad.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod paneli arsylwi'n cael eu cadw ar gau os nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd amrywiaeth o wybodaeth gyfredol ar gael yn yr ysbyty. Roedd hysbysfyrddau yn Belle Vue a Pillmawr yn dangos ystod eang o wybodaeth fanwl a pherthnasol i'r cleifion.

O ganlyniad i'r gwaith adnewyddu a oedd yn digwydd yn Beechwood, roedd hi'n rhesymol mai ychydig o wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos drwy'r ward i gyd ar ôl i'r gwaith ad-drefnu ac adnewyddu gael ei gwblhau.

Roedd ystod gyfyngedig o wybodaeth yn cael ei harddangos ar gyfer y cleifion ar ward Adferiad. Roedd nifer o hysbysfyrddau ond roedd sawl un ohonynt yn wag neu heb fawr ddim arnynt. Er bod rhywfaint o wybodaeth ychwanegol yn cael ei harddangos y tu allan i fynedfa'r ward, ychydig o wybodaeth a oedd ar gael yn hawdd i'r cleifion ar ward Adferiad, yn wahanol i'r wybodaeth a oedd i'w gweld yn y wardiau eraill.

Drwy'r ysbyty, roedd y wybodaeth a oedd i'w gweld yn Saesneg yn bennaf ac mewn maint ffont safonol, ac nid oedd fersiynau syml. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos mewn fformatau sy'n briodol i'r grwpiau cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ward yn arddangos gwybodaeth sy'n cynnwys;

- gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl ac eiriolaeth,
- sut i wneud cwyn
- gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos mewn fformatau sy'n briodol i'r grwpiau cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r claf unigol. Lle roedd y cleifion yn cael anhawster o hyd i egluro rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roeddent yn ceisio ei gyfleu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oedd wedi'i ddweud.

Roedd Belle Vue a Pillmawr yn cynnal cyfarfodydd cynllunio dyddiol bob bore er mwyn trefnu'r gweithgareddau, yn yr ysbyty ac yn y gymuned, ynghyd â gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, fel cyfarfodydd cynllunio gofal, tribiwnlysoedd, apwyntiadau meddygol ac ati.

Er nad oedd y mathau hyn o gyfarfodydd i'w gweld ar ward Adferiad, roedd hi'n amlwg bod y staff yn siarad â'r cleifion er mwyn gwneud trefniadau bob dydd. Fodd bynnag, nid oedd strwythur clir i'r trefniadau na'r gwaith cynllunio ac roedd hi'n ymddangos eu bod yn ad-hoc ac yn dibynnu ar y staff a oedd ar gael o ystyried anghenion clinigol eraill y cleifion a'r staff.

Adeg ein harolygiad, dim ond dau glaf oedd yn Beechwood ac roedd y ddau ohonynt yn ymbellhau wrth y staff yn gyffredinol, felly ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd yn ystod ein hamser ar y ward. Fodd bynnag, rhoddodd staff y ward a'r therapydd galwedigaethol sicrwydd i ni fod ymdrechion yn cael eu gwneud i ymgysylltu â'r cleifion a thrafod opsiynau ar gyfer gweithgareddau a therapïau.

Roedd hi'n gadarnhaol bod bwrdd "Dywedoch Chi / Gwnaethom Ni" i'w weld ar bob ward a oedd yn rhoi adborth i'r cleifion ar feysydd pryder a oedd wedi cael eu codi â'r staff. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, ychydig a oedd wedi cael ei gofnodi ar y bwrdd ar ward Adferiad ac roedd y rhan fwyaf o'r hyn a oedd wedi'i ysgrifennu yn annarllenadwy. Er bod y byrddau hyn yn fenter dda, mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried sut y caiff y manylion ar y byrddau hyn eu cofnodi yn yr hirdymor, oherwydd ar ôl i'r byrddau gael eu glanhau mae'r wybodaeth yn cael ei cholli oni bai ei bod wedi'i chofnodi mewn man arall.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ward yn cynnal cyfarfodydd dyddiol â'r cleifion ac yn cadw cofnodion ohonynt, neu fod cofnod yn cael ei gadw o'r rheswm dros beidio â chynnal cyfarfod.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ward yn gwneud defnydd effeithiol o'r

byrddau "Dywedoch Chi / Gwnaethom Ni" a bod y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi fel y gellir ei hadolygu.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Yn Belle Vue a Pillmawr (gan gynnwys North Lodge a South Lodge), o safbwynt cynllunio gofal ac ymarfer yn y wardiau, roedd pwyslais clir ar adsefydlu gyda gofal wedi'i deilwra i gleifion unigol a'i gefnogi gan arferion lleiaf cyfyngol.

Roedd gan bob claf ei gynllunydd gweithgareddau unigol ei hun, a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, a gynhelir yn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan oedd ei angen, roedd awdurdodiad wedi cael ei roi).

Fel y nodir uchod, roedd y gweithgareddau ar y ddwy ward hyn yn amrywiol ac yn canolbwyntio ar adfer, naill ai yn yr ysbyty neu yn y gymuned. Roedd cyfranogiad cleifion unigol mewn gweithgareddau yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd.

Roedd Beechwood, fel Uned Gofal Seiciatrig Dwys, yn canolbwyntio ar ddarparu gofal dwys er mwyn rheoli risgiau ac ymddygiad cleifion unigol. Wrth sgwrsio â'r staff, roedd hi'n amlwg bod pwyslais ar ddarparu gofal wedi'i deilwra er mwyn helpu'r cleifion a rheoli eu hymddygiad mewn amgylchedd mwy cyfyngol am gyn lleied o amser â phosibl.

O ganlyniad i faint a phrysurdeb y ward yn bennaf, roedd y gofal a welwyd ar ward Adferiad yn ymateb i geisiadau ac ymddygiad y cleifion fel arfer neu'n rhan o dasgau penodol a oedd yn rhan o arferion y ward. Roedd elfen o ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cleifion, fel cynnig gweithgareddau ad-hoc iddyn nhw, ond prin y gwelwyd hyn yn ystod yr arolygiad wrth i'r staff ganolbwyntio ar y tasgau dan sylw neu anghenion y cleifion wrth iddyn nhw godi. Mae hyn yn golygu y gallai cleifion ag anghenion annisgwyl nad ydynt yn eu dwyn i sylw'r staff, gael eu hanwybyddu'n anfwriadol.

Hawliau pobl

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi

meysydd i'w gwella o ran Cod Ymarfer Cymru; ymdrinnir yn fanylach â hyn yn adran Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn yr adroddiad.

Gallai cleifion hefyd ddefnyddio'r gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA) lle gellid cysylltu â chynrychiolwr dros y ffôn neu pan oedd yn dod i'r ysbyty.

Roedd teledu cylch cyfyng (CCTV) ar gael ar gyfer arsylwi o fewn yr ysbyty. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei bolisi ar y defnydd o CCTV er mwyn sicrhau ei fod yn cadw at ganllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a nodwyd yn ei Chod Ymarfer CCTV yn 2017³.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei bolisi ar ddefnydd o CCTV er mwyn sicrhau ei fod yn cadw at ganllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a nodwyd yn ei Chod Ymarfer CCTV yn 2017.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd cyfle i gleifion, perthnasau a gofalwyr roi adborth ar y gofal a ddarperir drwy broses Gweithio i Wella'r GIG⁴.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd cyfarfodydd rheolaidd â chleifion yn cael eu cynnal a'u cofnodi ar y wardiau adsefydlu, mae angen eu cynnal ar bob ward. Roedd byrddau "Dywedoch Chi / Gwnaethom Ni" wedi cael eu cyflwyno ar bob ward hefyd, ond mae angen eu defnyddio'n well.

³ <https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1542/cctv-code-of-practice.pdf>

Mae'r cod hefyd yn adlewyrchu'r amgylchedd rheoleiddiol ehangach. Wrth ddefnyddio, neu fwriadu defnyddio systemau goruchwyllo, mae angen i lawer o sefydliadau ystyried eu rhwymedigaethau mewn perthynas â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), y Ddeddf Diogelu Rhyddidau (POFA), Deddf Hawliau Dynol 1998 (HRA) a'r Cod Ymarfer Camerâu Goruchwyllo a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau (cod POFA).

⁴ Gweithio i Wella yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon am driniaeth yn y GIG, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt

Dyweddod y staff drwy gydol yr arolygiad eu bod yn delio'n rheolaidd â cheisiadau a phryderon y cleifion wrth iddyn nhw godi ar y ward. Gwelsom hyn yn digwydd drwy gydol yr arolygiad ar bob ward ac roedd y staff yn delio â cheisiadau'r cleifion mewn modd tosturiol ond proffesiynol.

Rhoi gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae angen gwella'r systemau larwm ar wardiau Adferiad a Pillmawr a'r broses ar gyfer hysbysu wardiau eraill bod angen cymorth.

Mae angen gwella'r gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau a gweithdrefnau'r ystafelloedd clinig, yn enwedig ar ward Adferiad. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd wella'r trefniadau sydd ar waith mewn perthynas â'r offer brys ar ward Pillmawr fel y nodwyd yn ein harolygiad blaenorol.

Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a bod ymarfer yn dilyn y canllawiau a nodir yn y Cod Ymarfer cysylltiedig ar gyfer Cymru.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau; cafodd y rhain eu datblygu er mwyn helpu'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau er mwyn cynnal iechyd a diogelwch cleifion, ymwelwyr a staff yr ysbyty.

Mae gan Ysbyty St Cadoc lawer o dir y gall y cyhoedd gael mynediad ato'n hawdd; felly, roedd y mynedfeydd i'r wardiau wedi'u cloi'n addas er mwyn atal rhywun rhag cael mynediad heb awdurdod.

Roedd system electronig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Cofnodwyd digwyddiadau ar y system a oedd yn cynnwys enw'r claf neu'r cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd unrhyw ddefnydd o atal yn gorfforol yn cael ei ddogfennu. Roedd hierarchaeth ar gyfer cymeradwyo digwyddiadau, gydag adroddiadau digwyddiadau rheolaidd yn cael eu llunio a'u hadolygu er mwyn i ddigwyddiadau gael eu monitro a'u dadansoddi.

Roedd mannau galw am nyrs o gwmpas y wardiau er mwyn i'r cleifion alw am gymorth os oedd ei angen. Roedd gan bob ward set o larymau personol i'r staff eu gwisgo. Fodd bynnag, dywedodd y staff fod y larymau ar wardiau Adferiad a Pillmawr yn annigonol am fod yn rhaid bod wrth ymyl y synwryddion er mwyn i'r larymau ganu ac na fyddai'r larwm yn gweithio mewn rhai rhannau o'r ddwy ward oni bai bod y teclyn yn cael ei bwyntio i gyfeiriad synhwrydd. Dangosodd y staff hyn i ni yn ystod yr arolygiad hefyd. Mae hyn yn golygu bod risg o niwed i'r cleifion a'r staff o ganlyniad i larymau annigonol ar y ddwy ward hyn. Roedd setiau gwahanol o larymau personol yn cael eu defnyddio yn wardiau Beechwood a Belle Vue a chadarnhaodd y staff nad oedd ganddynt unrhyw bryderon amdanynt.

Nid oedd cysylltiad awtomatig rhwng y wardiau pe bai larwm personol yn canu. Byddai angen i aelod o'r staff ddefnyddio ffôn y ward i gysylltu â'r wardiau eraill (gan ddefnyddio rhif galwadau cynadledda i gysylltu â phob ward ar yr un pryd) er mwyn gofyn am gymorth. Er bod y rhif galwadau cynadledda yn golygu bod modd cysylltu â phob ward ar yr un pryd, efallai na fydd hyn yn digwydd os na all aelod o'r staff gyrraedd y ffôn o ganlyniad i ddifrifoldeb y digwyddiad a lefelau staffio, yn enwedig gyda'r hwyr neu dros nos.

Cadarnhaodd yr uwch reolwyr bod y systemau larwm yn cael eu hadolygu'n barhaus, ond ni allent roi amserlen bendant. Mae angen gwneud gwelliannau ar fyrder i'r systemau larwm er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd gan dair ward, sef Adferiad, Belle Vue a Beechwood, ddiffibriliwr a throli dadebru brys a oedd ar gael yn hawdd i staff y wardiau. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ystod ein harolygiad blaenorol, nid oes diffibriliwr ar ward Pillmawr o hyd. Ar ôl yr arolygiad blaenorol, cyfeiriodd y bwrdd iechyd at ganllawiau'r Cyngor Dadebru (DU) er mwyn cadarnhau ei benderfyniad i beidio â gosod diffibriliwr ar ward Pillmawr. Yn ôl y canllawiau hyn, dylid gallu cael gafael ar ddiffibriliwr o fewn 5 munud. Mae profion y bwrdd iechyd wedi dangos bod modd cael gafael ar ddiffibriliwr o fewn yr amser hwn.

Roedd dogfennau'r offer brys ar ward Adferiad yn anghyson; roedd rhai dogfennau'n dweud y dylid cynnal gwiriadau wythnosol ac eraill yn dweud y dylid cynnal gwiriadau bob pythefnos. Y naill ffordd neu'r llall, nid oedd y gwiriadau gofynnol wedi cael eu cynnal ers dros bedair wythnos. Felly, nid oedd

y staff yn gwirio'r offer brys yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Roedd Ystafell Adran 136⁵ ddynodedig yn Ysbyty St Cadoc, ger ward Adferiad. Fodd bynnag, nid oedd y panel arsylwi ar y drws roedd staff yr ysbyty yn ei ddefnyddio i fynd i mewn i'r ystafell yn gweithio, felly ni allai'r staff gadarnhau ble roedd pobl yn yr ystafell er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel i fynd i mewn.

Roedd Ystafell Adran 136 yn cael ei goruchwyllo a'i rhedeg o ddydd i ddydd gan staff Adferiad. Mae Ystafell Adran 136 yn rhan o'r gofal heb ei drefnu a roddir i gleifion a all fod yn dioddef o anhwylder meddwl sy'n golygu bod angen eu derbyn i'r ysbyty o bosibl. Oherwydd natur y gwasanaeth hwn, mae'n amhosibl rhagweld yn gywir pryd y bydd angen defnyddio Ystafell Adran 136 a phryd y bydd angen staff o ward Adferiad ac am ba hyd.

Yn ôl ystadegau'r bwrdd iechyd, mae'r defnydd a wneir o Ystafell Adran 136 wedi cynyddu'n gyson yn ystod y flwyddyn o tua 20 o achlysuron bob mis i 30. Ar bob achlysur, byddai angen o leiaf un aelod o staff o ward Adferiad i fod yn bresennol am nifer o oriau er mwyn hwyluso'r broses asesu. Er bod y bwrdd iechyd wedi cynyddu lefelau staffio ar gyfer sifftiau nos a phenwythnosau ar ward Adferiad er mwyn helpu i hwyluso Ystafell Adran 136, nid oedd digon o staff ar gael ar y rota staffio i ddyrannu'r aelod ychwanegol hwn o staff yn aml.

Roedd y staff ar ward Adferiad wedi codi pryderon bod Ystafell Adran 136 yn effeithio ar y gofal a ddarperir ar ward Adferiad hyd yn oed pan roedd aelod ychwanegol o staff ar gael. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom sut roedd defnyddio staff o ward Adferiad i hwyluso Ystafell Adran 136 yn effeithio ar barhad ac amseroldeb y gofal ar ward Adferiad. Roedd yn rhaid i aelodau o'r staff ailddyrranu eu gwaith er mwyn rhoi blaenoriaeth i Ystafell Adran 136 a oedd yn golygu y byddai'n rhaid i'r cleifion ar ward Adferiad aros i staff gael eu hailddyrranu, weithiau o wardiau eraill yn Ysbyty St Cadoc.

Yn ystod yr arolygiad, cadarnhaodd uwch reolwyr o'r bwrdd iechyd fod gweithrediad Ystafell Adran 136 yn cael ei adolygu fel rhan o adolygiad ehangach o'r gwasanaethau a ddarperir. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw

⁵ Mae Adran 136 yn rhoi'r pŵer i'r heddlu fynd â pherson o fan cyhoeddus, pan fydd yn ymddangos ei fod yn dioddef o anhwylder meddwl, i fan diogel. Mae Ystafell Adran 136 yn fan diogel dynodedig.

gweithredu Ystafell Adran 136 yn effeithio ar y gofal a ddarperir ar wardiau'r ysbyty.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system briodol yn cael ei gosod yn lle'r systemau larwm ar wardiau Adferiad a Pillmawr er mwyn diogelu'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y systemau larwm ym mhob ward yn Ysbyty St Cadoc wedi'u cysylltu â'i gilydd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad oes anghysondeb o ran pa mor aml y caiff offer brys eu harchwilio a bod y gwiriadau hyn yn cael eu cwblhau pan fo angen.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y panel arsylwi ar ddrws Ystafell Adran 136 yn gweithio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw gweithredu Ystafell Adran 136 yn effeithio ar y gofal a ddarperir ar wardiau'r ysbyty.

Atal a rheoli heintiau

Mae angen gwneud gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau yn Ysbyty St Cadoc. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â chyflwr ward Adferiad ond mae angen gwneud gwelliannau eraill hefyd.

Roedd cynhyrchion hylendid dwylo ar gael mewn ardaloedd perthnasol; ar y cyd â'r rhain roedd arwyddion priodol. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol i atal a rheoli heintiau a dihalogi hefyd ar gael i'r staff.

Roedd yr offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol. Roedd amserlenni ar gyfer y gwaith glanhau a wneir gan staff cadw tŷ ym mhob rhan o Ysbyty St Cadoc. Nodwyd bod y rhestr wirio glanhau nysio yn anghyflawn yn rheolaidd ar ward Adferiad.

Fel y disgrifiwyd uchod, roedd pryderon sylweddol am y cawodydd ar ward Adferiad a oedd mewn cyflwr annerbyniol; mae angen adnewyddu'r rhain. Nodwyd bod angen cynnal a chadw a gwella ward Adferiad yn gyffredinol drwyddi draw; roedd nifer o dolciau yn y gwaith paent, marciau a staeniau ar y lloriau, y waliau a'r nenfydau. Roedd y cadeiriau yn y lolfa yn fudr ac wedi staenio hefyd.

Nodwyd nad oedd digon o gyfleusterau storio trefnus ar gael ar y wardiau, yn enwedig Adferiad a Pillmawr. O ganlyniad, roedd y staff yn storio eitemau ble y gallent yn hytrach nag mewn manau dynodedig priodol. Er enghraifft, sling i godi cleifion i mewn ac allan o'r bath yn yr ystafell therapi galwedigaethol ar ward Adferiad (er nad oedd bath ar gael) ac roedd yr ystafell ymolchi â chymorth ar ward Pillmawr yn cael ei defnyddio i storio pethau am nad oedd y cyfleusterau'n gweithio.

Nid oedd y tap dŵr poeth yn y sinc yng nghlinig Adferiad yn gweithio ac roedden nhw'n aros iddo gael ei drwsio neu am dap newydd. Roedd hyn yn effeithio ar ddyletswyddau clinigol y staff a gofal y cleifion. Ar adeg yr arolygiad, ni allai'r bwrdd iechyd roi dyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau storio a sicrhau bod digon o gyfleusterau storio trefnus yn Ysbyty St Cadoc.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y sinciau ym mhob clinig yn Ysbyty St Cadoc yn gweithio.

Maeth a hydradu

Roedd y cleifion yn cael prydu yn yr ysbyty, gan ddewis o fwydlen yr ysbyty. Roedd diodydd a ffrwythau ffres ar gael i'r cleifion ar y wardiau. Yn ein harolygiad blaenorol, codwyd pryderon sylweddol am y bwyd a ddarperir yn yr ysbyty, gan gynnwys bwyd a oedd wedi'i or-goginio yn eithaf rheolaidd neu archebion bwyd coll. Er na chodwyd y pryderon hyn yn ystod yr arolygiad hwn, thema gyffredin a gododd yn ystod ein sgysiau â'r cleifion oedd eu bod yn anfodlon yn aml ar ansawdd a diffyg amrywiaeth y prydu bwyd (yn enwedig yr opsiwn iach).

Fel y nodwyd yn gynharach, mae'n gadarnhaol bod y cleifion ar y ddwy ward adsefydlu, sef Belle Vue a Pillmawr, yn cael eu cynorthwyo a'u hannog i baratoi eu prydu bwyd eu hunain fel rhan o'u gofal adsefydlu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dewis digonol o brydu bwyd ar gael i'r cleifion er mwyn sicrhau amrywiaeth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses systematig ar waith i roi adborth ar y ddarpariaeth arlwyo er mwyn sicrhau y gall y bwrdd iechyd ddysgu o bryderon a chwynion.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom adolygu'r trefniadau rheoli meddyginiaethau ar wardiau Adferiad a Pillmawr. Yn gyffredinol, roedd meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol ar ward Pillmawr; fodd bynnag, roedd angen gwelliannau ar ward Adferiad.

Yn y ddwy ystafell glinig, roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel gyda chypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth dan glo a throliau meddyginiaeth wedi'u rhwymo yn eu lle. Gwelwyd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchydd. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ystod ein harolygiadau mewn rhannau eraill o'r bwrdd iechyd, nid oedd tymheredd yr ystafelloedd clinig yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod o fewn y terfynau gofynnol.

Roedd trefniadau priodol ar gyfer storio a defnyddio Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a all Gael eu Camddefnyddio. Wrth adolygu'r cofnodlyfrau, rhoddwyd cyfrif cywir am y meddyginiaethau hyn ar y ddwy ward. Fodd bynnag, ar ward Adferiad, roedd nifer o enghreifftiau lle nad oedd dau aelod o'r staff wedi llofnodi'r cofnod i ddangos eu bod wedi rhoi Cyffuriau a Reolir, fel sy'n ofynnol o dan bolisi perthnasol y bwrdd iechyd.

Roedd y Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (Siartiau MAR) a adolygwyd ar ward Pillmawr yn cynnwys enw'r claf a'i statws cyfreithiol o dan y ddeddf iechyd meddwl, ynghyd â'r dystysgrif statudol gysylltiedig ar gyfer cydsynio i driniaeth, lle bo angen. Nid oedd hyn yn digwydd ar ward Adferiad lle gwelwyd nad oedd nifer o Siartiau MAR yn cynnwys y wybodaeth bersonol ofynnol. Roedd bylchau hefyd yn y cofnodion rhoi meddyginiaeth ar y Siartiau MAR ar ward Adferiad, felly nid oeddent yn nodi'n glir p'un a oedd meddyginiaeth wedi cael ei rhoi nac unrhyw resymau dros beidio â'i rhoi. Hefyd, gwelsom Siartiau MAR heb y dystysgrif cydsynio i driniaeth gysylltiedig. Yn ogystal â hyn, roedd y tystysgrifau cydsynio i driniaeth ar ward Belle Vue yn anodd eu darllen ac mewn nifer o enghreifftiau, ni allai'r staff ddarllen y feddyginiaeth a oedd wedi'i hardystio.

Felly, ni chawsom sicrwydd bod y nyrsys yn cyfeirio at y tystysgrifau cydsynio i driniaeth er mwyn cadarnhau bod meddyginiaeth a ragnodwyd (ar gyfer anhwylder meddwl) wedi cael ei hawdurdodi o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd ystafell glinig ward Adferiad yn anhrefnus ac yn cynnwys llawer o feddyginiaeth stoc. Er i ni gael gwybod bod y stociau meddyginiaeth yn cael eu

gwirio bob wythnos, gwelsom fod meddyginiaeth a oedd wedi dyddio yn cael ei storio. Gwelsom hefyd gyffur a reolir a oedd heb gael ei ddefnyddio ar y ward ers nifer o fisoedd; dylid bod wedi gwneud trefniadau i ddychwelyd y feddyginiaeth hon.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu cael gafael ar bolisiâu'r ystafelloedd clinig perthnasol, ond dywedodd y rhan fwyaf o'r staff y byddent yn gwneud hynny drwy system gyfrifiadurol y bwrdd iechyd. Er gwaethaf hyn, nid oedd rhai aelodau o'r staff wedi gallu cyflwyno nifer o bolisiâu allweddol i ni, sy'n golygu nad oedd y staff yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd na chyfeirio atynt eu hunain yn ôl yr angen. Nodwyd hefyd fod y Polisi Tawelu Cyflym diweddaraf i fod i gael ei adolygu ym mis Mai 2013 ond nad oedd hyn wedi digwydd. Roedd hyn yn golygu na fyddai'r polisi yn adlewyrchu unrhyw ddatblygiadau ym maes tawelu cyflym sydd wedi digwydd ers iddo gael ei gyflwyno ym mis Mai 2011.

Roedd hi'n gadarnhaol nodi bod polisi hunan-feddyginiaeth wedi cael ei ddatblygu fel y gallai'r cleifion, fel rhan o'u gofal adsefydlu, gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu meddyginiaeth eu hunain. Fodd bynnag, cawsom wybod bod y polisi hwn ond yn berthnasol i gleifion yn North Lodge a South Lodge a bod trefniadau fferyllol y wardiau yn golygu nad oedd modd i'r cleifion gymryd eu meddyginiaeth eu hunain. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau hyn er mwyn sicrhau nad yw gofal adsefydlu'r cleifion yn cael ei roi dan anfantais.

Wrth adolygu'r ystafelloedd clinig, gwnaethom nodi problemau â'r silindrau ocsigen a allai gael eu defnyddio fel rhan o driniaeth arferol neu mewn argyfwng. Ar ward Pillmawr, roedd falf wallus ar y silindr ocsigen a oedd yn golygu na fyddai'r staff yn gallu rheoli'r llif ocsigen wrth ei ddefnyddio. Roedd y broblem hon wedi cael ei chofnodi ond roedd y ward yn dal i aros am falf newydd. Ar ward Adferiad, roedd y silindr ocsigen a oedd wedi cael ei osod yn barod i'w ddefnyddio yn wag; byddai hyn wedi arwain at oedi pe bai angen ei ddefnyddio mewn argyfwng. Ar ward Belle Vue, nodwyd nad oedd dau aelod o'r staff yn gallu defnyddio'r silindr ocsigen a bu'n rhaid iddynt alw am aelod arall o'r staff a oedd yn gallu gwneud hynny; unwaith eto, byddai hyn wedi arwain at oedi pe bai angen defnyddio'r silindr mewn argyfwng.

Fel y nodwyd uchod, nid ydym wedi cael sicrwydd bod y trefniadau mewn perthynas ag offer brys ar ward Pillmawr yn darparu ymateb mewn argyfwng. Rydym yn pryderu y gall fod oedi diangen a allai arwain at niwed i gleifion. Nid oedd tystiolaeth glir ar gael chwaith bod yr offer brys ar ward Adferiad yn cael eu gwirio'n unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymheredd ystafelloedd clinig y wardiau yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion mewn perthynas â rhoi Cyffuriau a Reolir yn cael eu llofnodi gan ddau aelod o'r staff.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob rhan o'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (Siartiau MAR), gan gynnwys y dudalen flaen, yn cael ei chwblhau'n llawn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nyrsys yn cyfeirio at dystysgrifau cydsynio i driniaeth wrth roi meddyginiaeth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ystafell glinig yn drefnus a bod meddyginiaeth ddiangen yn cael ei symud o'r clinigau yn amserol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y gall y staff gael gafael yn amserol ar bolisiau meddyginiaeth perthnasol a pholisïau'r ystafelloedd clinig.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Polisi Tawelu Cyflym yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau hunan-feddyginiaeth (a gaiff eu llywio gan bolisi'r bwrdd iechyd) ar gael i gleifion sy'n aros ar ward eu defnyddio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan bob ward silindrau ocsigen sy'n gweithio'n briodol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gallu defnyddio'r silindrau ocsigen.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn Ysbyty St Cadoc yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion.

Fodd bynnag, fel y nodwyd drwy gydol yr adroddiad, mae angen i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod yr arolygiad a chaiff y rhain eu nodi'n fanwl, ynghyd â chamau gweithredu'r bwrdd iechyd, yn Atodiad B.

Cadw cofnodion

Ffeiliau papur oedd cofnodion y cleifion yn bennaf, a'r rheini wedi'u storio a'u cadw yn swyddfa'r nyrsys dan glo. Gwelsom y staff yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad.

Roedd cofnodion y cleifion a adolygwyd gennym ar ward Pillmawr yn drefnus ond roedd y cofnodion ar ward Adferiad yn anhrefnus gyda gwybodaeth wedi'i ffeilio yn yr adran anghywir, neu ar goll yn llwyr. Mewn un achos, gwelsom siart monitro bwyd un claf yn ffeil un o'r cleifion eraill. Mae hyn yn golygu y byddai'n anodd i'r staff gael y wybodaeth ddiweddaraf o ffeiliau'r cleifion ar ward Adferiad. Gall hyn effeithio ar amser y staff ac amseroldeb y gofal a roddir i'r cleifion.

Hefyd, ar ward Adferiad, gwelsom nifer o enghreifftiau o'r staff yn llenwi dogfennau'r cleifion i safon broffesiynol wael drwy beidio â chwblhau'r dogfennau'n llawn, gan adael rhannau'n wag neu gofnodi gwybodaeth gryno iawn nad oedd yn ddigon manwl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnod pob claf yn cael ei gadw'n drefnus.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau dogfennau'r cleifion yn llawn gan roi gwybodaeth fanwl neu nodi nad yw hynny'n berthnasol, fel y bo'n briodol.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol chwe chlaf mewn dwy ward, sef Beechwood a Belle Vue. Adolygwyd hefyd y prosesau llywodraethu ac archwilio a oedd ar waith i fonitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) yn Ysbyty St Cadoc.

Roedd y dogfennau statudol yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithlon. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd un set o bapurau cadw wedi cael ei chwblhau'n briodol gan wasanaeth arall cyn i'r claf gael ei

drosoglwyddo i Ysbyty St Cadoc. Roedd y bwrdd iechyd wedi cael cadarnhad cyfreithiol nad oedd hyn yn effeithio ar ddilysrwydd y gorchymyn cadw ond roedd hyn yn tynnu sylw at y ffaith nad yw papurau'n cael eu harchwilio'n ddigonol o safbwynt cyfreithiol pan gaiff cleifion eu trosglwyddo i'r bwrdd iechyd.

Wrth graffu ar ddogfennau statudol ac adolygu'r prosesau sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf a Chod Ymarfer Cymru ar gyfer Deddf Iechyd Meddwl 1983, Diwygiedig 2016 (y Cod), gwelsom hepgoriadau eraill o ran ymarfer, sef:

- Ym mhob set o ddogfennau statudol a adolygwyd nid oedd cofnod o asesiad clinigydd cyfrifol y claf o alluedd y claf i gydsynio i driniaeth, paragraffau 24.29 i 24.37
- Nid oedd cofnod i ddangos bod triniaethau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd tystysgrif cydsynio i driniaeth un claf yn fwy na thair blwydd oed ac nid oedd tystiolaeth i ddangos ei bod wedi cael ei hadolygu, paragraff 25.80.
- Nid oedd arwydd clir wedi'i osod ar dystysgrifau cydsynio i driniaeth nad oeddent yn awdurdodi triniaeth mwyach er mwyn dangos i'r staff nad oeddent yn ddilys mwyach; roedd hyn yn berthnasol i'r dogfennau gwreiddiol a'r copïau a ddelir ar y wardiau. Paragraff 25.87.
- Nid oedd arwydd clir wedi'i osod ar ffurflenni awdurdodi Absenoldeb Adran 17 nad oeddent yn awdurdodi absenoldeb mwyach er mwyn dangos i'r staff nad oeddent yn ddilys mwyach; roedd hyn yn berthnasol i'r dogfennau gwreiddiol a'r copïau a ddelir ar y wardiau. Paragraff 27.17.
- Roedd y cleifion ond yn cael cynnig copïau o'u papurau cadw, yn hytrach na sicrhau eu bod yn cael copi, paragraff 4.14.
- Nid oedd y cleifion yn cael copi o'u dogfennau adnewyddu cyfnod cadw statudol, paragraff 32.4.

Er gwaethaf ymrwymiad staff o adran y Ddeddf Iechyd Meddwl, roedd hi'n amlwg bod yn rhaid iddyn nhw flaenoriaethu eu llwyth gwaith o ganlyniad i broblemau capasiti a bod hyn yn golygu nad oedd digon o sylw yn cael ei roi i rai rhannau o'r Cod. Mae hyn yn golygu nad oedd y bwrdd iechyd yn gallu sicrhau bod mesurau diogelu'r Cod yn cael eu cyflawni; mae angen adolygu capasiti adran y Deddf Iechyd Meddwl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o staff ar gael sy'n meddu ar wybodaeth briodol i gyflawni cyfrifoldebau statudol y bwrdd iechyd o dan y Ddeddf a bod ymarfer yn dilyn y canllawiau a nodir yn y Cod.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod papurau'n cael eu harchwilio o safbwynt cyfreithiol pan gaiff cleifion eu trosglwyddo i'r bwrdd iechyd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau'r camau y mae wedi'u cymryd i sicrhau bod y meysydd a nodwyd yn y Cod yn cael eu cwblhau a'u monitro.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal saith claf i gyd ar wardiau Adferiad a Pillmawr.

Nid oedd cofnod y tri chlaf a adolygwyd gennym ar ward Adferiad yn cynnwys Cynllun Gofal a Thriniaeth cyfredol. Roedd Cynllun Gofal a Thriniaeth un claf wedi cael ei lunio yn ystod ei gyfnod yn Beechwood. Roedd yn adlewyrchu'r gofal a ddarperir ar Uned Gofal Seiciatrig Dwys ac nid oedd wedi cael ei ddiweddarau pan drosglwyddwyd y claf i'r ward derbyn aciwt. Nid oedd gan y ddau glaf arall a adolygwyd Gynlluniau Gofal a Thriniaeth.

Roedd cofnodion y pedwar claf a adolygwyd gennym ar ward Pillmawr yn cynnwys Cynllun Gofal a Thriniaeth cyfredol. Roeddent yn gynhwysfawr ond nid oeddent wedi'u hysgrifennu mewn iaith sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n dangos bod y cleifion unigol wedi cyfrannu ac wedi cymryd perchenogaeth drostynt.

Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu cefnogi gan asesiadau risg a oedd yn amlygu'r risgiau a nodwyd a sut i'w rheoli a'u lliniaru, ynghyd â chynlluniau gofal ychwanegol manwl a oedd yn adlewyrchu gwaith cydweithredol y tîm amlddisgyblaethol a oedd yn helpu'r staff i ddarparu gofal i'r cleifion.

Yn y tair set o gofnodion cleifion ar ward Adferiad a dwy set o gofnodion cleifion ar ward Pillmawr, nid oedd asesiad amserol o anghenion y cleifion unigol pan gawsant eu derbyn i'r ysbyty. Mae hyn yn golygu y bu oedi cyn asesu a diwallu unrhyw anghenion penodol a oedd gan y cleifion hyn, gan gynnwys cymorth i symud a rheoli manau pwyso, a all gael effaith sylweddol ar lesiant claf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan bob claf Gynllun Gofal a Thriniaeth cyfredol sy'n adlewyrchu ei sefyllfa ar y pryd yn gywir.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob Cynllun Gofal a Thriniaeth yn cael ei ysgrifennu mewn iaith sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n dangos bod y claf unigol wedi cyfrannu ac wedi cymryd perchenogaeth drosto.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiad amserol o anghenion cleifion unigol yn cael ei gwblhau pan gânt eu derbyn i'r ysbyty.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Mae'n destun pryder mawr nad yw'r ymrwymadau a wnaed gan y bwrdd iechyd yn ei gynllun gwella ar ôl ein harolygiad blaenorol wedi cael eu cyflawni o hyd ar ôl dwy flynedd. Roedd canfyddiadau a nodwyd yn ystod arolygiadau eraill wedi'u nodi hefyd yn Ysbyty St Cadoc. Mae hyn yn dangos nad yw'r bwrdd iechyd yn rhannu gwersi i'w dysgu o ganlyniadau arolygiadau.

Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r gwasanaeth iechyd meddwl aciwt a ddarperir ar ward Adferiad ac yn Ystafell Adran 136 gan fod y canfyddiadau a nodwyd yn ystod yr arolygiad yn dangos bod y model presennol yn effeithio ar allu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol mewn ffordd amserol.

Roedd hi'n gadarnhaol nodi ein bod wedi gweld gwaith tîm da ac unigolion uchel eu cymhelliant ar bob ward. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei gael gan eu cydweithwyr ac arweinyddiaeth eu rheolwyr.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio'n glir yn ystod y dydd ac roedd trefniadau i uwch reolwyr a meddygon ar alw ar waith ar gyfer y sifft nos.

Fodd bynnag, cododd rhai aelodau o'r staff bryderon nad oedd gan yr ysbyty drefniadau rheoli clir yn ystod y sifft nos. Nid oedd nyrs ddynodedig, gyda rolau a chyfrifoldebau penodol, yn gyfrifol am yr ysbyty yn ystod y sifft nos. Gwelwyd hyn yn ystod noson gyntaf ein harolygiad pan nad oedd yr aelodau o'r staff y

gwnaethom siarad â nhw wedi gallu cadarnhau nifer y staff, y cleifion a'r gwelyau ar wardiau eraill yr ysbyty.

Ar y cyfan, roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod Ysbyty St Cadoc yn canolbwyntio ar ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau a nodwyd yn ystod yr arolygiad yn amlygu'r anawsterau sy'n gysylltiedig â derbyn cleifion iechyd meddwl aciwt. Er gwaethaf ymdrechion gorau'r staff ar ward Adferiad, mae tystiolaeth glir yn yr adroddiad hwn nad yw'r staff yn gallu cyflawni eu dyletswyddau i ddarparu gofal amserol, diogel ac effeithiol i'r cleifion. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gwasanaeth a ddarperir ar ward Adferiad ynghyd â'r ffordd y rheolir Ystafell Adran 136 er mwyn sicrhau y gall y staff ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion mewn ffordd amserol.

Mae'n destun pryder mawr nad yw'r ymrwymïadau a wnaed gan y bwrdd iechyd yn ei gynllun gwella ar ôl ein harolygiad blaenorol wedi cael eu cyflawni o hyd ar ôl dwy flynedd; mae hyn yn annerbyniol. Roedd hi'n siomedig hefyd nad oedd y bwrdd iechyd wedi rhannu gwersi i'w dysgu o arolygiadau eraill o fewn y bwrdd iechyd a oedd yn golygu ein bod wedi nodi'r un problemau yn ystod yr arolygiad hwn.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff, drwy gydol yr arolygiad, yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir o ran rheoli'r ysbyty yn ystod y sifft nos.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gwasanaeth a ddarperir ar ward Adferiad er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a nodir yn yr adroddiad hwn a sicrhau y gall y staff ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion mewn ffordd amserol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ffordd y mae'n rheoli Ystafell Adran 136 er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio ar y gofal a ddarperir ar y wardiau yn Ysbyty St Cadoc.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i wersi sy'n deillio o weithgarwch arolygu gael eu rhannu ar draws y bwrdd cyfan.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Ar bob ward, gwelsom waith tîm da ac unigolion a oedd yn llawn cymhelliant i ddarparu gofal pwrpasol i'r cleifion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei gael gan eu cydweithwyr ac arweinyddiaeth eu rheolwyr.

Gwnaethom adolygu hyfforddiant y staff; roedd yn amlwg ei fod yn cael ei fonitro gan y rheolwyr ward ac uwch reolwyr, ac roedd cyfraddau uchel o gydymffurfio â hyfforddiant gorfodol. Siaradodd y staff am gyfleoedd i gael hyfforddiant ychwanegol a oedd yn ymwneud yn benodol â darparu gofal i gleifion mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Fodd bynnag, nid oedd digon o gyfleusterau i'r staff eu defnyddio yn ystod eu hegwyf. Roedd hyn yn golygu mai prin oedd y lleoedd addas y gallai'r staff eu defnyddio yn ystod eu hegwyfiau i ffwrdd o'r ward.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o leoedd addas y gall y staff eu defnyddio yn ystod eu hegwyfiau i ffwrdd o'r ward.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys. Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Ysbyty St Cadoc

Wardiau: Adferiad, Beechwood, Belle Vue & Pillmawr

Dyddiad arolygu: 19 - 21 Tachwedd 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch	Ddim gymwys yn	Ddim yn gymwys	Ddim gymwys yn	Ddim yn gymwys

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty St Cadoc

Wardiau: Adferiad, Beechwood, Belle Vue & Pillmawr

Dyddiad arolygu: 19 - 21 Tachwedd 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r bwrdd iechyd adolygu cynllun y gegin Gweithgareddau Bywyd Beunyddiol ar ward Pillmawr a sicrhau bod yr holl gyfleusterau'n gweithio.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae cynlluniau i wella'r gegin wedi cael eu cymeradwyo gan yr Is-adran a chyflwynwyd PPD ar gyfer arian cyfalaf fel rhan o raglen cyfalaf dewisol 2019/20.	Rheolwr Cyffredinol, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Medi 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob soced erial teledu yn gweithio.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Cytunwyd ar arian a chaiff y gwaith ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon.	Uwch Reolwr, Gwaith ac Ystadau	Mawrth 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y gall y cleifion gau'r llenni preifatrwydd rhwng y gwelyau yn yr ystafelloedd cysgu (oni bai bod risgiau cleifion unigol yn dangos nad yw hynny'n briodol).	4.1 Gofal Gydag Urddas	Staff nyrsio i sicrhau bod llenni'n bresennol ac yn gweithio'n briodol. Staff i ystyried tynnu'r llenni bob nos yn ddiodyn oni bai bod y cleifion yn gofyn iddyn nhw beidio â gwneud hynny. Uwch Nyrs i fonitro cydymffurfiaeth â hyn drwy gyfarfodydd unigol misol â Rheolwr y Ward a rhoi sicrwydd i'r Brif Nyrs yn unol â hynny.	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dŵr cynnes ym mhob cawod.	4.1 Gofal Gydag Urddas	Pob cawod ar y wardiau i gael ei harchwilio bob mis fel rhan o raglen archwilio gan gymryd camau priodol i wneud gwaith atgyweirio lle bo angen. Rheolwr y Ward i uwchgyfeirio unrhyw oedi at yr Uwch Nyrs a Thîm y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion	Uwch Reolwr, Gwaith ac Ystadau	Yn syth
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob cawod yn cael ei chynnal i'r lefel lanweithdra ofynnol.	4.1 Gofal Gydag Urddas	Pob cawod i gael ei glanhau'n ddyddiol gan y staff cadw tŷ. Lle bo Rheolwr y Ward a/neu'r staff cadw tŷ yn penderfynu bod angen gwneud mwy na glanhau'r cawodydd yn	Uwch Reolwr, Cyfleusterau	Yn syth

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ddyddiol, dylid uwchgyfeirio hyn i'r Rheolwr Cyfleusterau perthnasol fel y gellid gweithredu ar unwaith ac adolygu amserlenni glanhau yn y dyfodol.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu mwy o gawodydd ar ward Adferiad.	4.1 Gofal Gydag Urddas	Bydd y bwrdd iechyd yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb o ddyluniad cyffredinol ward Adferiad er mwyn cynnwys y gwelliant hwn a gwelliannau eraill sydd eu hangen.	Uwch Reolwr, Gwaith ac Ystadau	Mehefin 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau ymolchi â chymorth ar gael yn Ysbyty St Cadoc.	4.1 Gofal Gydag Urddas	Cytunwyd ar arian a chymeradwywyd cynlluniau i greu ystafell ymolchi â chymorth ar ward Kemeys a fydd ar gael i'r safle cyfan.	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Ebrill 2019
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i ddarparu ardaloedd cyffredin ar gyfer dynion a menywod ar wahân ar ward Adferiad.	4.1 Gofal Gydag Urddas	Bydd y bwrdd iechyd yn ystyried hyn fel rhan o'r astudiaeth ddichonoldeb. Bydd y bwrdd iechyd hefyd yn gofyn am farn y cleifion dros gyfnod o amser er mwyn llywio ei gynlluniau.	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Medi 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod paneli arsylwi'n cael eu cadw ar gau os nad ydynt yn	4.1 Gofal Gydag Urddas	Cytunwyd ar arian i gyfnewid paneli arsylwi er mwyn sicrhau y gall y cleifion gynnal eu hurddas a rheoli'r	Uwch Reolwr, Gwaith ac	Mawrth 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cael eu defnyddio.		paneli a sicrhau y caiff y paneli eu cadw ar gau os nad ydynt yn cael eu defnyddio.	Ystadau	
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ward yn arddangos gwybodaeth sy'n cynnwys;</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl ac eiriolaeth, • sut i wneud cwyn • gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. 	4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion	<p>Yr Adran Ansawdd a Diogelwch Cleifion i anfon y wybodaeth hon at reolwyr y wardiau yn rheolaidd er mwyn eu hannog i sicrhau bod y wybodaeth ar gael yn hawdd.</p> <p>Caiff hyn ei fesur gan y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion gan ddefnyddio adnodd Achredu Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Gleifion Mewnol (AIMS) o Oedran Gweithio (WA) Coleg Brenhinol y Seiciatryddion i fesur hyn a safonau eraill ar draws y wardiau aciwt - adrodd i'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion bob mis drwy gyfarfod yr Adran Ansawdd a Diogelwch Cleifion.</p> <p>Caiff archwiliad Is-adrannol ei gynnal bob chwe mis a fydd yn cynnwys y</p>	<p>Pennaeth Ansawdd a Gwella, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu</p> <p>Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion</p>	<p>Chwefror 2019</p> <p>Mehefin 2019</p> <p>Gorffennaf 2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		safon hon.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos mewn fformatau sy'n briodol i'r grwpiau cleifion.	4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion	<p>Rheolwyr y wardiau i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg fel mater o drefn ac y gall y cleifion gael gwybodaeth mewn fformatau eraill ar gais e.e. ieithoedd eraill, print bras.</p> <p>Caiff hyn ei fesur gan y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion gan ddefnyddio adnodd AIMS WA i fesur hyn a safonau eraill ar draws y wardiau aciwt - adrodd i'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion bob mis drwy gyfarfod yr Adran Ansawdd a Diogelwch Cleifion.</p> <p>Caiff archwiliad Is-adrannol ei gynnal bob chwe mis a fydd yn cynnwys y safon hon.</p>	<p>Pennaeth Ansawdd a Gwella, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu</p> <p>Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion</p>	<p>Mawrth 2019</p> <p>Mehefin 2019</p> <p>Gorffennaf 2019</p>
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ward yn cynnal cyfarfodydd dyddiol â'r cleifion ac yn cadw cofnodion ohonynt, neu fod cofnod yn cael ei gadw o'r rheswm dros beidio â chynnal	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Wardiau adsefydlu: Rheolwyr y wardiau i sicrhau bod nodyn cryno'n cael ei gadw o gyfarfodydd dyddiol a bod y nodiadau hyn ar gael i'w hadolygu gyda'r cleifion a'r Uwch	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Yn syth

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cyfarfod.		<p>Nyrs fel rhan o'r cyfarfodydd unigol misol</p> <p>Wardiau aciwt: Bydd y bwrdd iechyd yn ystyried rôl cyfarfodydd dyddiol mewn partneriaeth â'r staff a'r cleifion er mwyn penderfynu ai dyma'r ffordd fwyaf priodol o ymgysylltu â phobl sydd â salwch aciwt.</p>		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ward yn gwneud defnydd effeithiol o'r byrddau "Dywedoch Chi / Gwnaethom Ni" a bod y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi fel y gellir ei hadolygu.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	<p>Bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod rheolwyr y wardiau'n gyfrifol am fonitro a diweddarau'r byrddau bob wythnos. Bydd rheolwyr y wardiau yn cadw cofnod o awgrymiadau a chymau gweithredu a gaiff ei archwilio bob chwarter drwy gyfarfod Rheolwyr y Wardiau a chyfarfod y Gyfarwyddiaeth Ansawdd a Diogelwch Cleifion er mwyn sicrhau bod syniadau / gwersi i'w dysgu yn cael eu rhannu hefyd.</p> <p>Caiff archwiliad ei gynnal bob chwe mis a fydd yn cynnwys y safon hon.</p>	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	<p>Mehefin 2019</p> <p>Gorffennaf 2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei bolisi ar ddefnydd o CCTV er mwyn sicrhau ei fod yn cadw at ganllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a nodwyd yn ei Chod Ymarfer CCTV yn 2017.	6.2 Hawliau pobl	Mae'r bwrdd iechyd wedi diweddarau ei bolisi Caiff y polisi ei anfon at reolwyr y wardiau er gwybodaeth iddyn nhw.	Pennaeth Ansawdd a Gwella, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Chwefror 2019
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system briodol yn cael ei gosod yn lle'r systemau larwm ar wardiau Adferiad a Pilmawr er mwyn diogelu'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r Adran Iechyd a Diogelwch wedi penderfynu bod angen cynnal archwiliad cyflawn newydd o'r holl systemau larwm a chaiff y canlyniadau eu cyflwyno yn y cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion ym mis Mai. Bydd hyn yn llywio'r gwaith adolygu ac uwchraddio sydd ei angen. Mae mân welliannau i'r system bresennol wedi cael eu cymeradwyo.	Pennaeth Iechyd a Diogelwch Rheolwr Cyffredinol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Medi 2019
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y systemau larwm ym mhob ward yn Ysbyty St Cadoc wedi'u cysylltu â'i gilydd.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r Adran Iechyd a Diogelwch wedi penderfynu bod angen cynnal archwiliad cyflawn newydd o'r holl systemau larwm a chaiff y	Pennaeth Iechyd a Diogelwch Rheolwr	Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>canlyniadau eu cyflwyno yn y cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion ym mis Mai. Bydd hyn yn llywio'r gwaith adolygu ac uwchraddio sydd ei angen.</p> <p>Mae mân welliannau i'r system bresennol wedi cael eu cymeradwyo.</p>	Cyffredinol lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad oes anghysondeb o ran pa mor aml y caiff offer brys eu harchwilio a bod y gwiriadau hyn yn cael eu cwblhau pan fo angen.</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Rheolwyr y wardiau i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cynnal bob wythnos a bod cofnod yn cael ei gadw i ddangos hyn.</p> <p>Caiff hyn ei fesur gan y Gyfarwyddiaeth lechyd Meddwl Oedolion gan ddefnyddio adnodd AIMS WA i fesur hyn a safonau eraill ar draws y wardiau aciwt - adrodd i'r Gyfarwyddiaeth lechyd Meddwl Oedolion bob mis drwy gyfarfod yr Adran Ansawdd a Diogelwch Cleifion.</p> <p>Caiff archwiliad Is-adrannol ei gynnal bob chwe mis a fydd yn cynnwys y safon hon</p>	<p>Prif Nyrs, lechyd Meddwl Oedolion</p>	<p>Mehffin 2019</p> <p>Gorffennaf 2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y panel arsylwi ar ddrws Ystafell Adran 136 yn gweithio.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Caiff y panel ei atgyweirio ym mis Mai 2019. Yn y cyfamser, mae CCTV ar gael sy'n golygu y gellir parhau i arsylwi	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Mai 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw gweithredu Ystafell Adran 136 yn effeithio ar y gofal a ddarperir ar wardiau'r ysbyty.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae rotâu staff nyrsio yn ystyried y ffaith bod angen staff i weithio yn Ystafell Adran 136. Os na chaiff sifftiau eu llenwi, dylid uwchgyfeirio hyn fel y gall tîm y Gyfarwyddiaeth ddatrys y broblem. Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi cwblhau Arfarniad o Opsiynau ar gyfer rheoli Ystafell Adran 136 a gaiff ei gyflwyno i'r Tîm Is-adrannol fel y gellir trafod y mater a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r gwaith.	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Ebrill 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau storio a sicrhau bod digon o gyfleusterau storio trefnus yn Ysbyty St Cadoc.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi	Bydd y bwrdd iechyd yn cynnwys hyn yn yr astudiaeth ddichonoldeb. Bydd y bwrdd iechyd hefyd yn adolygu'r trefniadau storio ar ward Adferiad ac yn nodi cyfleusterau storio oddi ar y	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Mawrth 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ward os oes angen.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y sinciau ym mhob clinig yn Ysbyty St Cadoc yn gweithio.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi	<p>Rheolwyr y wardiau i wirio sinciau'r clinigau yn syth. Dylid rhoi gwybod i'r adran gwaith ac ystadau am unrhyw ddiffygion a dylid uwchgyfeirio unrhyw oedi at y tîm rheoli.</p> <p>Bydd cyfarfodydd misol unigol yr Uwch Nyrs â rheolwyr y wardiau yn cynnwys unrhyw faterion Gwaith ac Ystadau sydd heb eu cwblhau/sy'n mynd rhagddynt.</p>	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	<p>Ar unwaith</p> <p>Chwefror 2019</p>
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dewis digonol o brydau bwyd ar gael i'r cleifion er mwyn sicrhau amrywiaeth.	2.5 Maethiad a Hydradiad	<p>Wardiau adsefydlu: Yn ogystal â'r prydau bwyd a ddarperir, caiff y cleifion eu hannog i brynu a pharatoi eu bwyd eu hunain gymaint â phosibl. Gallant hefyd ddefnyddio'r ffreutur a chael mwy o ddewis o brydau bwyd.</p> <p>Wardiau aciwt: Mae cynlluniau i dreialu prydau wedi'u rhewi y gellir eu coginio yn y microdon yn ogystal â'r prydau a ddarperir ar y wardiau aciwt. Mae grŵp prosiect wedi cael ei</p>	<p>Uwch Reolwr, Cyfleusterau</p> <p>Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Gorffennaf 2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		sefydlu i fynd i'r afael â'r gwaith hwn a monitro'r canlyniadau, gan adrodd i Dîm y Gyfarwyddiaeth.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses systematig ar waith i roi adborth ar y ddarpariaeth arlwygo er mwyn sicrhau y gall y bwrdd iechyd ddysgu o bryderon a chwynion.	2.5 Maethiad a Hydradiad	Yr Is-adran Cyfleusterau i gynnal arolygon 'hapsamp' rheolaidd er mwyn cael adborth ar brydau bwyd a'r gwasanaeth arlwygo. Bydd hyn hefyd yn rhan o'r grŵp prosiect (uchod).	Uwch Reolwr, Cyfleusterau	Gorffennaf 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymheredd ystafelloedd clinig y wardiau yn cael ei fonitro'n rheolaidd.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Prynu thermostatau ar gyfer yr ystafelloedd clinig. Monitro tymheredd yr ystafelloedd clinig ar adegau gwahanol o'r dydd a phob wythnos o leiaf. Rheolwyr y wardiau i sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw i ddangos hyn. Caiff hyn ei drafod â'r Uwch Nyrs yn y cyfarfodydd unigol misol.</p> <p>Caiff archwiliad Is-adrannol ei gynnal bob chwe mis a fydd yn cynnwys y safon hon.</p> <p>Bydd unrhyw raglen gyfalaf yn y dyfodol yn ystyried ailadeiladu'r</p>	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Mai 2019 Gorffennaf 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ystafelloedd clinig fel y gellir rheoli'r tymheredd a'i gadw'n gyson.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion mewn perthynas â rhoi Cyffuriau a Reolir yn cael eu llofnodi gan ddau aelod o'r staff.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Rheolwyr y wardiau i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cynnal bob wythnos a bod cofnod yn cael ei gadw i ddangos hyn. Caiff hyn ei drafod â'r Uwch Nyrs yn y cyfarfodydd unigol misol.</p> <p>Y Tîm Fferylliaeth i gyflwyno canlyniadau'r archwiliad rheoli meddyginiaethau i'r Is-adran Ansawdd a Diogelwch Cleifion</p> <p>Caiff archwiliad Is-adrannol ei gynnal bob chwe mis a fydd yn cynnwys y safon hon.</p>	<p>Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion</p> <p>Uwch Reolwr, Fferylliaeth</p>	<p>Yn syth</p> <p>Medi 2019</p> <p>Gorffennaf 2019</p>
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob rhan o'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (Siartiau MAR), gan gynnwys y dudalen flaen, yn cael ei chwblhau'n llawn.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Rheolwyr y wardiau i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cynnal bob wythnos a bod cofnod yn cael ei gadw i ddangos hyn. Caiff hyn ei drafod â'r Uwch Nyrs yn y cyfarfodydd unigol misol.</p> <p>Caiff archwiliad Is-adrannol ei gynnal</p>	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	<p>Yn syth</p> <p>Gorffennaf</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		bob chwe mis a fydd yn cynnwys y safon hon.		2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nyrsys yn cyfeirio at dystysgrifau cydsynio i driniaeth wrth roi meddyginiaeth.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Rheolwyr y wardiau i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cynnal bob wythnos a bod cofnod yn cael ei gadw i ddangos hyn. Caiff hyn ei drafod â'r Uwch Nyrs yn y cyfarfodydd unigol misol. Caiff archwiliad Is-adrannol ei gynnal bob chwe mis a fydd yn cynnwys y safon hon.	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Yn syth Gorffennaf 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ystafell glinig yn drefnus a bod meddyginiaeth ddiangen yn cael ei symud o'r clinigau yn amserol.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Rheolwyr y wardiau i sicrhau bod ystafelloedd clinig yn drefnus a bod offer / cypyrddau wedi'u labelu'n glir. Caiff hyn ei fonitro gan Uwch Nyrsys, fel rhan o'r ymweliadau HEB a gynhelir bob chwe mis. Y Tîm Fferylliaeth i sicrhau bod meddyginiaeth ddiangen yn cael ei symud bob wythnos.	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion Uwch Reolwr, Fferylliaeth	Yn syth Yn syth

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y gall y staff gael gafael yn amserol ar bolisiau meddyginiaeth perthnasol a pholisiau'r ystafelloedd clinig.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Rheolwyr y wardiau i sicrhau bod polisiau cyfredol perthnasol ar gael yn yr ystafelloedd clinig.	Prif Nyrs	Ar unwaith
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Polisi Tawelu Cyflym yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Caiff y polisi ei adolygu, ei ddiweddarau a'i lanlwytho i'r fewnwyd.	Pennaeth Ansawdd a Gwella, Iechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu	Mehafin 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau hunan-feddyginiaeth (a gaiff eu llywio gan bolisi'r bwrdd iechyd) ar gael i gleifion sy'n aros ar ward eu defnyddio.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Bydd y Tîm Fferylliaeth yn adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer y wardiau adsefydlu er mwyn galluogi'r cleifion i gymryd eu meddyginiaeth eu hunain lle bo hynny'n briodol.	Uwch Reolwr, Fferylliaeth	Rhagfyr 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan bob ward silindrau ocsigen sy'n gweithio'n briodol.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Rheolwyr y wardiau i sicrhau, fel rhan o wiriadau wythnosol, bod y silindrau ocsigen yn gweithio'n iawn a bod cofnod yn cael ei gadw i ddangos hyn. Caiff hyn ei drafod â'r Uwch Nyrs yn y cyfarfodydd unigol misol. Caiff archwiliad Is-adrannol ei gynnal bob chwe mis a fydd yn cynnwys y	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Yn syth Gorffennaf

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		safon hon.		2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gallu defnyddio'r silindrau ocsigen.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Rheolwyr y wardiau i sicrhau bod pob nyrs gymwysedig ar eu wardiau yn gallu defnyddio'r silindrau ocsigen a bod cofnod yn cael ei gadw i ddangos hyn. Caiff hyn ei drafod â'r Uwch Nyrs yn y cyfarfodydd unigol misol. Caiff archwiliad Is-adrannol ei gynnal bob chwe mis a fydd yn cynnwys y safon hon.	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Yn syth Gorffennaf 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnod pob claf yn cael ei gadw'n drefnus.	3.5 Cadw cofnodion	Rheolwyr y wardiau i sicrhau bod cofnodion iechyd yn cael eu monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys y dogfennau cywir, eu bod yn gronolegol ac yn drefnus. Caiff archwiliad Is-adrannol ei gynnal bob chwe mis a fydd yn cynnwys y safon hon.	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Yn syth Gorffennaf 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau dogfennau'r cleifion yn llawn gan roi gwybodaeth fanwl neu nodi nad yw hynny'n berthnasol, fel y bo'n briodol.	3.5 Cadw cofnodion	Rheolwyr y wardiau i sicrhau bod cofnodion iechyd yn cael eu monitro bob wythnos er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys y dogfennau cywir, eu bod yn gronolegol ac yn drefnus Caiff archwiliad Is-adrannol ei gynnal bob chwe mis a fydd yn cynnwys y safon hon.	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion Pennaeth Ansawdd a Gwella, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Yn syth Gorffennaf 2019
Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o staff ar gael sy'n meddu ar wybodaeth briodol i gyflawni cyfrifoldebau statudol y bwrdd iechyd o dan y Ddeddf a bod ymarfer yn dilyn y canllawiau a nodir yn y Cod.	Cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Mae'r bwrdd iechyd wrthi'n meincnodi ei hun yn erbyn byrddau iechyd eraill yng Nghymru o safbwynt adnoddau Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a bydd yn defnyddio'r canfyddiadau i lywio unrhyw ddatblygiadau i wasanaethau. Mae Gweinyddwr arall ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl newydd gael ei benodi.	Pennaeth Ansawdd a Gwella, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Mawrth 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod papurau'n cael eu harchwilio o safbwynt cyfreithiol pan gaiff cleifion eu trosglwyddo i'r bwrdd iechyd.	Cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Bydd y bwrdd iechyd yn cynnal archwiliad o berfformiad y wardiau yn erbyn safonau'r Ddeddf Iechyd Meddwl bob deufis er mwyn gwella cydymffurfiaeth a bydd yn rhannu hyn â rheolwyr y wardiau er mwyn	Pennaeth Ansawdd a Gwella, Iechyd Meddwl ac Anableddau	Mawrth 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cynyddu ymwybyddiaeth ac atebolrwydd y staff clinigol. Bydd rheolwyr y wardiau a Thîm y Gyfarwyddiaeth yn cael adborth bob deufis. Mae Gweinyddwr arall ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl newydd gael ei benodi.	Dysgu	
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau'r camau y mae wedi'u cymryd i sicrhau bod y meysydd a nodwyd yn y Cod yn cael eu cwblhau a'u monitro:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ym mhob set o ddogfennau statudol a adolygwyd nid oedd cofnod o asesiad clinigydd cyfrifol y claf o alluedd y claf i gydsynio i driniaeth, paragraffau 24.29 i 24.37 • Nid oedd cofnod i ddangos bod triniaethau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd tystysgrif cydsynio i driniaeth un claf yn fwy na thair blwydd oed ac nid oedd tystiolaeth i ddangos ei bod wedi cael ei hadolygu, 	Cymhwysu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	<p>Mae'r bwrdd iechyd wedi cyfathrebu â'r holl staff perthnasol er mwyn gweithredu ar unwaith ar y pwyntiau a restrir.</p> <p>Mae Gweinyddwr arall ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl newydd gael ei benodi.</p> <p>Bydd haparchwiliadau chwarterol o bob ward yn ailddechrau a bydd rheolwyr y wardiau yn cael adborth. Caiff y canlyniadau eu cyflwyno hefyd yng nghyfarfod yr Is-adran Ansawdd a Diogelwch Cleifion er mwyn monitro tueddiadau a diwallu anghenion hyfforddiant.</p>	Pennaeth Ansawdd a Gwella, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Yn syth Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>paragraff 25.80.</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oedd arwydd clir wedi'i osod ar dystysgrifau cydsynio i driniaeth nad oeddent yn awdurdodi triniaeth mwyach er mwyn dangos i'r staff nad oeddent yn ddilys mwyach; roedd hyn yn berthnasol i'r dogfennau gwreiddiol a'r copïau a ddelir ar y wardiau. Paragraff 25.87. Nid oedd arwydd clir wedi'i osod ar ffurflenni awdurdodi Absenoldeb Adran 17 nad oeddent yn awdurdodi absenoldeb mwyach er mwyn dangos i'r staff nad oeddent yn ddilys mwyach; roedd hyn yn berthnasol i'r dogfennau gwreiddiol a'r copïau a ddelir ar y wardiau. Paragraff 27.17. Roedd y cleifion ond yn cael cynnig copïau o'u papurau cadw, yn hytrach na sicrhau eu bod yn cael copi, paragraff 4.14. Nid oedd y cleifion yn cael copi o'u 				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
dogfennau adnewyddu cyfnod cadw statudol, paragraff 32.4.				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan bob claf Gynllun Gofal a Thriniaeth cyfredol sy'n adlewyrchu ei sefyllfa ar y pryd yn gywir.	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Rheolwyr y wardiau i sicrhau bod yr hapwiriadau'n cael eu cynnal bob wythnos a bod cofnod yn cael ei gadw i ddangos hyn. Caiff archwiliad Is-adrannol ei gynnal bob chwe mis a fydd yn cynnwys y safon hon.	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion Pennaeth Ansawdd a Gwella, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Yn syth Mehfin 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob Cynllun Gofal a Thriniaeth yn cael ei ysgrifennu mewn	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Caiff cynlluniau gofal eu hysgrifennu ar y cyd â'r cleifion ac yn eu geiriau eu hunain lle bo hynny'n bosibl.	Pennaeth Ansawdd a Gwella, Iechyd	Yn syth

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
iaith sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n dangos bod y claf unigol wedi cyfrannu ac wedi cymryd perchenogaeth drosto.		Caiff y wardiau eu cynnwys yn yr archwiliad treigl o Gynlluniau Gofal a Thriniaeth ar draws yr Is-adran, a fydd yn cynnwys iaith sy'n canolbwyntio ar y person.	Meddwl ac Anableddau Dysgu	Mehefin 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiad amserol o anghenion cleifion unigol yn cael ei gwblhau pan gânt eu derbyn i'r ysbyty.	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Rheolwyr y wardiau i atgoffa'r staff o'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal asesiadau amserol Wardiau i gael eu cynnwys yn yr archwiliad treigl o Gynlluniau Gofal a Thriniaeth ar draws yr Is-adran.	Pennaeth Ansawdd a Gwella, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Yn syth
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir o ran rheoli'r ysbyty yn ystod y sifft nos.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae Uwch Nyrs ar alw rhwng 17:00 a 9:00 bob nos yn ystod yr wythnos a rhwng 9:00 a 9:00 bob dydd dros y penwythnosau a gwyliau banc. Mae'r rota ar gael ar gyfer pob ward a chysylltir â'r Uwch Nyrs yn rheolaidd er mwyn cael cyngor, cymorth a	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		chaniatâd. Gall yr Uwch Nyrs gysylltu â'r Uwch Reolwr Ar Alw (sydd ar gael ar gyfer yr un sifftiau). Mae'r bwrdd iechyd yn datblygu opsiynau ar gyfer arweinyddiaeth ar y safle dros nos.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gwasanaeth a ddarperir ar ward Adferiad er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a nodir yn yr adroddiad hwn a sicrhau y gall y staff ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion mewn ffordd amserol.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	<p>Yn ogystal â'r camau gweithredu a nodir, mae'r gwasanaethau a ddarperir ar ward Adferiad hefyd yn rhan o brosiect partneriaeth parhaus yr Is-adran ar Ddarpariaeth mewn Argyfwng.</p> <p>Yn benodol, mae'r adolygiadau llif gwaith ailfodelu Gofal mewn Argyfwng (sy'n cynnwys Adferiad) yn llywio'r gwasanaethau a ddarperir.</p> <p>Mae Tîm y Gyfarwyddiaeth yn cynnal cyfarfodydd rhanddeiliaid â staff o ward Adferiad er mwyn llywio'r gwasanaethau a ddarperir a'r opsiynau i'w hystyried gan y Tîm Is-adrannol.</p>	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Rhagfyr 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ffordd y mae'n rheoli Ystafell Adran 136 er mwyn sicrhau nad	Llywodraethu, Arweinyddiaeth	Mae Tîm y Gyfarwyddiaeth wedi datblygu SBARD i'w gyflwyno i'r tîm	Prif Nyrs, Iechyd	Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
yw'n effeithio ar y gofal a ddarperir ar y wardiau yn Ysbyty St Cadoc.	ac Atebolrwydd	<p>Is-adrannol sy'n cynnwys opsiynau eraill i'w hystyried.</p> <p>Bydd gwaith i ddatblygu arweinyddiaeth ar y safle dros nos yn cynnwys yr effaith ar Ystafell Adran 136.</p> <p>Bydd y gwaith hwn hefyd yn llywio strategaeth argyfwng yr Is-adran a llif gwaith ailfodelu gofal aciwt y Gyfarwyddiaeth.</p>	Meddwl Oedolion	
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i wersi sy'n deillio o weithgarwch arolygu gael eu rhannu ar draws y bwrdd cyfan.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod gwersi i'w dysgu o adroddiadau AGIC yn cael eu trafod a'u rhannu yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion Corfforaethol (deufisol) sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob Is-adran.	Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio	Ebrill 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o leoedd addas y gall y staff eu defnyddio yn ystod eu hegwyliau i ffwrdd o'r ward.	7.1 Y gweithlu	Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi nodi ardal ar ward Kemeys fel ystafell ddynodedig i staff o bob rhan o'r safle. Mae cyfarpar wedi cael ei archebu.	Prif Nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion	Ebrill 2019

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Ana Llewellyn
Teitl swydd: Nyrs Is-adrannol
Dyddiad: Chwefror 2019